Eirug Wyn

Enw Eirug Wyn
Ganwyd Do! 11.12.1950
Ble? Llan, Llanbrynmair, Powys.

Addysg Ysgol Bontdolgadfan, Llanbrynmair (tan 1958), wedyn Ysgol Llandinorwig tan 1961. 1961 – 1969 Ysgol Brynrefail, Llanrug.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Roeddwn i'n hoffi sgwennu straeon ac yn casáu chwaraeon o bob math!

Beth roeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny? Roeddwn i eisiau bod yn gowboi!

Pwy oedd eich hoff awdur yn blentyn? T. Llew Jones.

Beth oedd eich hoff lyfr? *Trysor y Môr Ladron*. Fe'i cefais yn anrheg Nadolig yn 1960 a dyna'r tro cyntaf i mi ddarllen llyfr o glawr i glawr ar un eisteddiad. Roeddwn i'n ei ddarllen wrth y bwrdd cinio Nadolig!

Beth yw eich hoff ddiddordebau? Casglu llyfrau a dogfennau, darllen, dreifio ceir MAWR pwerus (mae gen i Jaguar erbyn hyn!) a ... Manchester United! (mae gen i ddau docyn tymor yn Old Trafford.)

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Man U yn ennill.

Beth sy'n eich gwylltio chi? Man U yn colli.

Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu? Pan oeddwn i'n 40 oed!

Pa un oedd eich llyfr cyntaf? *Y Drych Tywyll*.

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu? Mae'n dibynnu ar yr awen!

Ydych chi'n ysgrifennu ar gyfer rhywun arbennig? Na.

Ble rydych chi'n ysgrifennu? Yn fy ffau! Ystafell arbennig sydd gen i yn y tŷ. Mae'n llawn llyfrau, papurau, casetiau, CDs a rhaglenni Man U!

O ble daw eich syniadau? O bob man. Pytiau o newyddion, penawdau papur newydd, gwrando ar sgyrsiau pobl ... etc.

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu? Dal ati!

Oes rhai o'ch cymeriadau wedi eu seilio arnoch chi? Oes! Mae un yn ymddangos yn *United!*

Oes unrhyw beth yr hoffech ei newid amdanoch eich hunan? Na.

Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau? Ychydig iawn fydda i'n ei wylio – ar wahân i ffilmiau cowbois!

Beth yw eich hoff fwyd? Stêc fawr anferth Gymreig.

Ffotograffydd | Nigel Hughes

Yn fy ngwaith bob dydd rydw i'n gweithio i gwmni teledu Ffilmiau'r Bont – ac mae fy ngwaith yn amrywio o ysgrifennu sgriptiau, i ymchwilio a chynhyrchu rhaglenni ar gyfer teledu – S4C yn bennaf. Rydw i'n briod hefo Gwenda ac mae gennym ddwy ferch – Dwynwen sy'n 24 oed a Rhiannon sy'n 22.

Ar benwythnosau fe fydda i'n ymlacio drwy fynd i bob gêm gartref Manchester United, darllen a gweithio ar hen Jaguar yr ydw i wedi ei brynu ers dwy flynedd ac rydw i ar fin cwblhau ei adnewyddu. Rydw i wedi penderfynu ei baentio yn ddu bitsh ac rydw i am brynu rhif plât arbennig iddo sef D1 LOL.

Rydw i'n hoff iawn o hiwmor a thynnu coes.

Mae gen i gi bach ffyrnig (Jac Rysel) o'r enw Gelert Llywelyn Wyn (y merched roddodd yr enw arno) ac erbyn hyn mae Gel yn 16 oed. Mae hynny'n cyfateb i 96 oed! Mae o wedi heneiddio ac arafu, ond mae o'n dal yn ffyrnig. Mae gen i nifer o straeon fedrwn i eu hadrodd am anturiaethau Gel.

O gofio fy mod i wrth fy modd yn ysgrifennu pan oeddwn i yn yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, a 'mod i hefyd yn ysgrifennu rywfaint pan oeddwn i yn y Coleg, wnes i ddim dechrau ysgrifennu o ddifri nes oeddwn i'n 40 oed – ac mi rydw wedi difaru am fy mod i wedi gwastraffu ugain mlynedd!

Ac yn rhyfedd iawn, pan oeddwn i'n 40 hefyd y dechreuodd fy ngwallt fritho! Erbyn hyn mae o'n wyn i gyd.

Y llyfr cyntaf wnes i ei ysgrifennu ar gyfer plant oedd *United!* ac fe ges i sioc fy mywyd pan ddechreuodd plant o bob rhan o Gymru ysgrifennu ata i yn dweud cymaint yr oedden nhw wedi mwynhau darllen y llyfr. Fe fydda i'n cadw ac yn trysori pob llythyr fydda i'n ei dderbyn, ac yn ysgrifennu ateb personol i bawb yn unigol. Mae'n bwysig i awdur barchu a gwrando ar yr hyn sydd gan ddarllenwyr i'w ddweud – hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi mwynhau darllen ei waith!

Pan ddechreuais i fynd o ysgol i ysgol i siarad hefo plant, fe wnes i fwynhau'r profiad i'r fath raddau fel fy mod i am geisio ysgrifennu o leiaf un llyfr bob blwyddyn ar gyfer plant a phobl ifanc am y deng mlynedd nesa!

Ac erbyn hynny, fe fydda i nid yn unig yn hen iawn, ond efallai yn foel hefyd!

Llyfrau gan Eirug Wyn

1992	Drych Tywyll a Storïau Eraill *Y Lolfa* £3.95
1994	Smôc Gron Bach (Gwobr Goffa Daniel Owen 1994) *Y Lolfa* (allan o brint)
1995	Lara *Y Lolfa* £4.50
1996	United! *Cwmni Iaith Cyf.* llyfr £2.50 casét £5.90
1996	Elvis – Diwrnod i'r Brenin *Y Lolfa* £4.95
1997	I Ble'r Aeth Haul y Bore? *Y Lolfa* £5.95
1998	Blodyn Tatws (Cyfrol y Fedal Ryddiaith 1998) *Y Lolfa* £4.95
1999	Hogia'r Milgi *Y Lolfa* £3.95
1999	I Dir Neb *Y Lolfa* £5.95
2000	Dingo *CBAC* £3.00
2000	Tri Mochyn Bach (Cyfrol y Fedal Ryddiaith 2000) *Y Lolfa* £5.95
2001	Powdwr Rhech! *Y Lolfa* £3.95